CYNGOR SIR *POWYS* COUNTY COUNCIL

DISGRIFIAD SWYDD

Teitl y Swydd:	**Glanhawr â Chyfrifoldeb**
Rhif y Swydd:	**MCC0549**
Cod Gwerthuso Swyddi:	**LES060**
Gwasanaeth:	**Catering and Cleaning**
Lleoliad/Canolfan Waith:	**Sylfaen, Llanidloes**

(mae hon yn swydd gweithio o leoliad, ac felly bydd rhaid i'r sawl sydd yn y swydd weithio o leoliad penodol fel y nodir)

Graddfa:	**Graddfa 2** **Pwynt 3** **£25,614 y flwyddyn ar gyfartaledd** **£13.27 yr awr**

Ar hyn o bryd mae gan Gyngor Sir Powys dâl atodol Cyflog Byw Gwirioneddol yn ôl disgresiwn i weithwyr sy'n ennill llai na £13.45 yr awr.

Oriau'r contract:	**6 awr, Parhaol**
Atebol i:	**Cydlynydd Glanhau**
Cyfrifoldeb dros:	

Crynodeb

Ynghylch y rôl:
Byddwch yn gyfrifol am lanhau amrywiol adeiladau Powys yn gyffredinol, gan gynnwys hwfro, mopio, glanhau dodrefn ac arwynebau gwaith.

Amdanoch chi:
Chwaraewr tîm da
Bydd angen i chi fod yn hyblyg yn eich ymagwedd at waith
Y gallu i weithio ar eich pen eich hun pan fo angen
Sgiliau cyfathrebu rhagorol

Beth fyddwch yn ei wneud:
Glanhau ysgolion ac adeiladau

Sicrhau bod y sefydliad yn ddiogel

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y rôl, cysylltwch â: Fiona Preece
01597 826531
07786 276713

Bydd eich cyfrifoldebau'n cynnwys:

1. Darparu gwasanaeth rheng flaen yn unol â pholisïau a gweithdrefnau Cyngor Powys.

2. Bod yn gyfrifol am agor neu gau'r sefydliad o ddydd i ddydd ynghyd a diogelwch y safle.

3. Bod yn gyfrifol am yr allweddi ar gyfer ymateb i argyfyngau.

4. Bod yn gyfrifol am lanhau man penodol i'r safon ofynnol gan ddefnyddio'r gweithwyr sydd ar gael.

5. Glanhau'r lloriau trwy ddefnyddio peiriant sugno llwch, peiriant llathru, peiriant sgwrio, ac ysgubo'n sych/yn wlyb/mopio
   Glanhau'r dodrefn, peiriannau, sinciau ac wynebau gwaith, y sgyrtin, silffoedd a siliau ffenestr
   Glanhau ardaloedd y toiledau y toiledau, wrinalau, basnau ymolchi, drychau a dosbarthwyr papur tŷ bach a thywelion papur.
   Glanhau marciau budron oddi ar y waliau, drysau a ffenestri mewnol hyd at uchder y pen
   Symud gweon pry cop a thynnu llwch hyd at uchder o 2.2m.

6. Rhoi rhagor o bapur tŷ bach, tywelion papur a sebon yno yn ôl y galw.
   Gwacáu biniau ailgylchu/gwastraff (gan gyd-fynd â threfniadau lleol ar gyfer ailgylchu) a glanhau'r biniau hyn, rhoi rhagor o fagiau sbwriel yn y biniau yn ôl y galw.
   Symud unrhyw wastraff ailgylchu / sbwriel i'r man gwastraff, a'u storio'n gywir yn barod i'w casglu. Cynorthwyo i symud dodrefn yn ôl y galw.

7. Sicrhau bod y safle'n cael ei gloi ar y prydiau penodol o ddydd i ddydd. Gwneud yn siwr bod y safle'n cael ei gloi a'i ddatgloi yn unol a'r amseroedd sy'n ofynnol y tu allan i'r diwrnod gwaith ar gyfer contractwyr.
   Sicrhau bod y safle'n cael ei adael yn ddiogel, gyda'r drysau a'r ffenestri wedi'u cloi a'r larymau wedi'u troi ymlaen.

8. Cwblhau'r ddogfennaeth angenrheidiol ar y safle yn ôl y gofyn
   Cwblhau'r holl waith papur angenrheidiol a'u hanfon i'r swyddfa yn ôl y galw
   Glanhau waliau, lloriau, ffenestri a drysau mewnol, dodrefn, siliau ffenestr ac wynebau Gwaith

9. Sicrhau gwaith o safon drwy:
   a. rhoi gwybod i Bennaeth y sefydliad a'r Gwasanaeth Cymorth Glanhau Symudol am eitemau sydd wedi'u niweidio/torri
   b. rhoi gwybod i Bennaeth y sefydliad a'r Gwasanaeth Cymorth Glanhau Symudol am ddraeniau sydd wedi'u cau

c. rhoi gwybod i Bennaeth y sefydliad a'r Gwasanaeth Cymorth Glanhau Symudol am ffenestri sydd wedi'u cracio neu'u torri
d. cadw at reolau iechyd a diogelwch
e. dilyn gweithdrefnau cydnabyddedig ar gyfer defnyddio cemegau yn gywir
f. sicrhau bod yr amgylchedd gweithio'n ddiogel

Gofynion Gwirio'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd:

Nid oes gan y swydd hon ofyniad am unrhyw Wiriad DBS

Gofynion Iechyd a Diogelwch

Cydweithredu â'ch cyflogwr a dilyn cyngor a chyfarwyddiadau iechyd a diogelwch.

Datganiad Cydraddoldebau:

Cadw at egwyddorion ac arferion cyfle cyfartal fel y maent i'w cael ym Mholisi Cyfle cyfartal y Cyngor.

Gofynion y Gymraeg
Mae sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol

SYLWCH;

Er y manylion sydd yn y swydd ddisgrifiad, bydd gofyn i'r sawl sydd yn y swydd wneud unrhyw waith ar gais y Rheolwr o dro i dro, hyd at neu ar lefel sy'n cyfateb â 'Phrif Gyfrifoldebau'r Swydd.'

Y PERSON

Ydych chi'n meddwl mai chi yw'r person cywir i'r rôl? Os felly, dangoswch eich bod chi'n bodloni'r meini prawf canlyniol yn eich cais.

Profiad

Hanfodol

- Profiad o lanhau

Dymunol

- Profiad o ddiogelu adeiladau
- Profiad o ddefnyddio offer glanhau
- Profiad o ddilyn rhaglenni gwaith

Gwybodaeth

Hanfodol

- Deall halogiad
- Iechyd a Diogelwch

Dymunol

- Deall cemegau, sut i'w defnyddio a'u storio

Cofrestriadau, Cymwysterau a Hyfforddiant

Hanfodol

- Gallu cwblhau hyfforddiant mewn swydd ar gyfer y peiriannau a'r cemegau

Rhinweddau Personal

Hanfodol

- Sgiliau cyfathrebu a gallu rhyngbersonol da
- Yn brydlon

Sgiliau

Hanfodol

- Gallu dod i ben â'r holl waith papur angenrheidiol
- Gallu gwneud hyfforddiant perthnasol, gweithio'n annibynnol neu fel rhan o dim.

Dymunol

- Sgiliau ysgrifenedig a llafar da

Gofynion Eraill

Hanfodol

- Gallu i ddiogelu'r adeilad

Dymunol

- Amseroedd gwaith hyblyg

Rheolwr recriwtio: Meganne Watkins
30/04/2014

Ein gwerthoedd:

Proffesiynol
Rydym yn ymddwyn gyda phroffesiynoldeb ac integriti ym mha bynnag rôl yr ydym yn ei chwarae yn y cyngor

Cadarnhaol
Mae ein hagwedd yn gadarnhaol ym mhopeth a wnawn

Blaengar
Mae ein hymagwedd yn rhagweithiol a chyfrifol wrth gynllunio am y dyfodol

Agored
Rydym yn hysbysu'n gilydd gan rannu gwybodaeth ac ymddwyn â gonestrwydd ac integriti

Cydweithiol
Rydym ni'n gweithio'n adeiladol ac â pharodrwydd ar fentrau ar y cyd

Sut i ymgeisio

Bydd angen i chi gwblhau'r cais ar-lein, mae'n syml, dilynwch y broses gam wrth gam.

Gair i gall:

- Darllenwch y Swydd Ddisgrifiad a Manyleb y Person yn ofalus a'r dystiolaeth eich bod chi'n bodloni'r holl feini prawf hanfodol yn eich datganiad cefnogi.
- Gwerthwch eich hun a rhowch enghreifftiau ble y bo'n bosibl
- Rhestrwch y cymwysterau sydd gennych sy'n berthnasol i'r swydd, yn ôl y manylion ym manyleb y person.
- Sicrhewch fod un o'ch canolwyr o'ch cyflogwr mwyaf diweddar neu os mai hon yw eich swydd gyntaf beth am ofyn i athro ysgol neu diwtor, ond sicrhewch eich bod yn adnabod y canolwr ar lefel broffesiynol.
- Byddwch yn onest a dywedwch wrthym am unrhyw fylchau yn hanes eich cyflogaeth
- Cwblhewch y cais yn gyflawn

Camau nesaf

Y dyddiad cau ar gyfer ymgeisio yw 22/11/2026.
Ar ôl cyflwyno byddwn yn anfon e-bost atoch i roi gwybod i chi ein bod ni wedi derbyn eich cais.
Byddwn yn creu rhestr fer o'r ceisiadau ar 27/11/2026. Byddwn yn anfon e-bost atoch os ydych chi'n llwyddiannus ai peidio. Felly, cadwch lygad ar eich mewnflwch!

Bydd y cyfweliadau'n digwydd ar 04/12/2026.

Dymunwn bob hwyl i chi gyda'ch cais.